# Y Trydydd Cynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (216)

**Dyddiad: Dydd Mawrth 28 Medi 2010**
**Amser: 13.30**

### Eitem 1: Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

………………………

**14.21**
**Cwestiwn Brys**
**Andrew RT Davies (Canol De Cymru)** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr Adolygiad ar y Cyd o Achosion Difrifol a gyhoeddwyd ar 24 Medi sy'n dangos diffygion difrifol gan asiantaethau sy'n gyfrifol am amddiffyn plant? EAQ(3)1682(HSS)

………………………

**14.49**
### Eitem 2: Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

………………………

**15.10**
**Eitem 3: Datganiad gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb: Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi (45 munud)**

………………………

**15.54**
**Eitem 4: Datganiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol: "Eich Gwasanaeth Chi, Eich Llais Chi" (45 munud)**

………………………

**16.41**
**Eitem 5: Dadl ar Adroddiad Blynyddol Datblygu Cynaliadwy (60 munud)**

**NDM4538 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn croesawu'r cynnydd a wnaed ym maes datblygu cynaliadwy yn 2009-10 fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth y Cynulliad ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Medi 2010.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu nad yw cymhorthdal Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y cyswllt hedfan rhwng y gogledd a'r de yn cyfateb i ddyheadau Cynllun Datblygu Cynaliadwy'r llywodraeth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 10 | 26 | 41 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gymeradwyo argymhelliad Comisiwn Datblygu Cynaliadwy Cymru yn Adroddiad Blynyddol 2009-2010 'ddim yn unig yn adrodd ar y cynnydd a wnaed ar y Prif Ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy, ond ei fod hefyd yn cynnwys cyfres o fesurau ar effeithiolrwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ôl ei hamcanion perfformiad ei hun (ar draws llywodraeth)'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 0 | 40 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Ni symudwyd gwelliant 3 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i fesur perfformiad Datblygu Cynaliadwy yn glir yn erbyn ymrwymiadau Cymru'n Un yn flynyddol ac adrodd yn ôl i'r Cynulliad hwn.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:**

**NDM4538 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn croesawu’r cynnydd a wnaed ym maes datblygu cynaliadwy yn 2009-10 fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth y Cynulliad ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Medi 2010.

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gymeradwyo argymhelliad Comisiwn Datblygu Cynaliadwy Cymru yn Adroddiad Blynyddol 2009-2010 'ddim yn unig yn adrodd ar y cynnydd a wnaed ar y Prif Ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy, ond ei fod hefyd yn cynnwys cyfres o fesurau ar effeithiolrwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ôl ei hamcanion perfformiad ei hun (ar draws llywodraeth)'.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 4 | 3 | 42 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**17.22**
**Cyfnod pleidleisio**

**Daeth y cyfarfod i ben am 17.25**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mercher 29 Medi 2010.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**